



DATGANIAD I'R WASG

Dyddiad: 8 Hydref 2021

EMBARGO: 00.01am dydd Gwener 15 Hydref 2021

Tân arni i Reilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru diolch i grant y Loteri Genedlaethol gwerth £3.1 miliwn

Bydd cynlluniau'r rheilffordd yn cynnig "Profiad twristiaeth o ansawdd uchel sy'n dod â budd gwirioneddol i economi Gogledd Cymru"

Mae atyniad twristaidd mwyaf Gogledd Cymru - Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru, yn dathlu ar ôl sicrhau £3.1 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Bydd y buddsoddiad o £3,144,000 yn rhoi hwb i gynlluniau'r rheilffyrdd i ddenu mwy o ymwelwyr drwy ddarparu "profiad twristiaeth o ansawdd uchel", a chyfleoedd gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli i gymuned Porthmadog.

Bydd hefyd yn ariannu'r gwaith o adfer a gwarchod adeiladau gan gynnwys Gwaith Boston Lodge sydd yn y Guinness Book of Records fel y 'gweithdy rheilffordd hynaf mewn gweithrediad parhaus'.

A bydd cefnogwyr yn darparu £900,000 ychwanegol o arian cyfatebol ar gyfer y prosiect tair blynedd a hanner a ddylai, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, helpu i ddenu hyd at 250,000 o ymwelwyr i'r rheilffyrdd bob blwyddyn.

Safle Treftadaeth y Byd UNESCO

Ar eu hanterth, roedd y rheilffyrdd yn ganolbwynt i'r farchnad byd-eang am lechi Cymru ac yn gwasanaethu'r mwynglawdd lechi danddaearol fwyaf yn y byd - chwarel yr Oakeley ym Mlaenau Ffestiniog.

Heddiw, mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru a ddaeth yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yng ngogledd orllewin Cymru ym mis Gorffennaf, yn denu hyd at 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Ac mae ei dwy reilffordd - Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, yn rhannu treftadaeth reilffordd drawiadol gyda Rheilffordd Ffestiniog yn rheilffordd gul hynaf y byd a Rheilffordd Ucheldir Cymru yw rheilffordd dreftadaeth hiraf y DU.

Atyniad o ansawdd uchel o'r radd flaenaf

Meddai Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:

"Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd y buddsoddiad hwn o £3.1 miliwn yn caniatáu i Reilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru – atyniad gwirioneddol o'r radd flaenaf, o ansawdd uchel, ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'r gymuned leol a rhoi hwb i economi gogledd orllewin Cymru drwy ddod â 50,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r ardal bob blwyddyn.

"Yn ogystal â'r manteision economaidd a chyflogaeth niferus o Reilffyrdd Ffestiniog a Chymru, mae'r prosiect hwn sy'n canolbwyntio ar waith Boston Lodge yn enghraifft wych o sut y gall treftadaeth ein helpu i ddeall pwy ydym ni ac o ble rydym yn dod a sut mae'r cymunedau yr ydym yn rhan ohonynt wedi'u llunio gan y gorffennol drwy ddod â hanes yn fyw."

Allforio llechi Cymru i bedwar ban y byd

Wedi'i adeiladu rhwng 1833 a 1836, roedd Rheilffordd Ffestiniog yn cario llechi o fwyngloddiau llechi Blaenau Ffestiniog i borthladd ym Mhorthmadog a'u cludo ar draws y byd.

Cariodd Rheilffordd Ffestiniog ei llwyth olaf yn 1946 ac yn 1954 dechreuodd gwirfoddolwyr ddod ag ef a Gwaith Boston Lodge yn ôl yn fyw.

Adferwyd Rheilffordd Ucheldir Cymru yn y 1990au a chrëwyd Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru.

Rhannu ein straeon gyda chenedlaethau'r dyfodol

Wrth sôn am brosiect Gwaith Boston Lodge, dywedodd Paul Lewin – Cyfarwyddwr a Rheolwr Cyffredinol Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru:

"Rydym yn rheilffordd Gymreig ac mae ein hanes wedi'i gydbblethu ers 200 mlynedd gyda'r gymuned leol. Rydym am adeiladu ar y cysylltiadau presennol hynny fel y gall y gymuned leol ymfalchïo yn nhreftadaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru a Boston Lodge a bod yn rhan ohonynt.

"Drwy ein prosiect, rydym am gasglu ein straeon a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â chenedlaethau'r dyfodol a'n bod yn parhau i chwarae ein rhan yn economi a llwyddiant gogledd Cymru."

"Mae ein rheilffordd wedi goroesi drwy addasu a chrosawu technoleg a diolch i'r buddsoddiad hwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, byddwn yn gwneud hynny eto nawr i sicrhau ein bod yn cynnig profiad twristiaeth o ansawdd uchel sy'n dod â budd gwirioneddol i economi Gogledd Cymru."

- DIWEDD -

DELWEDDAU A FFILM

Gallwch lawrlwytho delweddau o Reilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yma <https://www.festrailmedia.co.uk>

Gallwch lawrlwytho delweddau o'r Gwaith Boston Lodge yma <https://nlhfproject.festrail.co.uk/>

Dyma sianel YouTube Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru <https://www.youtube.com/user/Festshopman>

CYSWLLT

Ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, cysylltwch ag Iwan Rhys Roberts – Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, 07547 408 191, iwan.rhys.roberts@heritagefund.org.uk

Ar gyfer Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru, cysylltwch â Chris Parry – Swyddog Marchnata, 07774 109788, cparry@ffwhr.com

YNGLŶN Â CHRONFA TREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

Using money raised by the National Lottery, we Inspire, lead and resource the UK's heritage to create positive and lasting change for people and communities, now and in the future.

<https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales>

Follow @HeritageFundCYM on Twitter, Facebook and Instagram and use #NationalLotteryHeritageFund

Gan ddefnyddio arian a godwyd gan y Loteri Genedlaethol, rydym yn ysbrydoli, yn arwain ac yn ariannu treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. <https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/107838>

Dilynwch @HeritageFundCYM ar Twitter, Facebook ac Instagram a defnyddiwch #CronfaTreftadaethyLoteriGenedlaethol

Ynglŷn â Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldiroedd Cymru

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yw'r rheilffordd dwristiaeth fwyaf a mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Sefydliad di-elw sy'n eiddo i ymddiriedolaeth elusennol, mae'r rheilffordd o arwyddocâd hanesyddol dwfn ac mae'n geidwad asedau treftadaeth sy'n amrywio o strwythur cerrig sych ac adeiladau i gerbydau hanesyddol o arwyddocâd rhyngwladol.

<https://www.festrail.co.uk>

Dilynwch ni ar Twitter, Facebook ac Instagram

hashnod - #bestrailwayintheworld